# Agenda - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mercher, 19 Medi 2018

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Bethan Davies**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6372

SeneddCyllid@cynulliad.cymru

---

## Ethol Cadeirydd dros dro

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.00)

## 2 Papur(au) i'w nodi

(09.00) (Tudalennau 1 - 3)

2.1 PTN1 - Llythyr gan y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol - Grŵp Rhyng-weinidogol ar Dalu am Ofal Cymdeithasol - 26 Gorffennaf 2018

(Tudalennau 4 - 8)

2.2 PTN2 - Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid - Cyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2018-19 - 10 Awst 2018

(Tudalennau 9 - 11)

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ac o'r cyfarfod ar 27 Medi 2018

(09.00)

## 4 Paratoadau ar gyfer yr hyn a fydd yn disodli ffrydiau cyllido'r UE yng Nghymru: Trafod yr adroddiad drafft

(09.00-10.30) (Tudalennau 12 - 67)

Papur 1 - Adroddiad drafft

## 5 Trafod Offeryn Statudol Treth

(10.30-10.40) (Tudalen 68)

Papur 2 – Rheoliadau Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 (Rhyddhad Adfer Safle) (Diwygio) 2018 – Sesiwn friffio cyfreithiol

Rheoliadau Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 (Rhyddhad Adfer Safle) (Diwygio) 2018

Memorandwm esboniadol

## 6 Mentrau Senedd@

(10.40-10.45) (Tudalen 69)

Papur 3 – Llythyr gan y Llywydd – mentrau Senedd@ – 18 Gorffennaf 2018

## 7 Cost Gofalu am Boblogaeth sy'n Heneiddio: Trafod yr adroddiad drafft

(10.45-11.45) (Tudalennau 70 – 125)

Papur 4 – Adroddiad drafft

## 8 Dull ar gyfer Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20

(11.45-11.50) (Tudalennau 126 – 128)

Papur 5 – Dull ar gyfer Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20

# Mo Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 11 Gorffennaf 2018

Amser: 09.01 - 12.13

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4843

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Simon Thomas AC (Cadeirydd)<br>Neil Hamilton AC<br>Mike Hedges AC<br>Jane Hutt AC<br>David Rees AC<br>Mark Reckless AC |
| Tystion: | Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid<br>Georgina Haarhoff, Llywodraeth Cymru<br>Julian Revell, Llywodraeth Cymru<br>Gerald Holtham |
| Staff y Pwyllgor: | Catherine Hunt (Ail Glerc)<br>Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br>Georgina Owen (Dirprwy Glerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd)<br>Joanne McCarthy (Ymchwilydd) |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

| | |
|---|---|
| | Gareth David Thomas (Ymchwilydd)<br><br>Ben Harris (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Steffan Lewis AC a Nick Ramsay AC.

1.2 Croesawodd y Cadeirydd Mark Reckless AC, a oedd yn bresennol fel dirprwy ar ran Nick Ramsay AC.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Nodwyd y papur.

## 3 Cost Gofalu am Boblogaeth sy'n Heneiddio: Sesiwn dystiolaeth 8 (Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid)

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid; Julian Revell, Pennaeth Dadansoddi Cyllidol; a Georgina Haarhoff, Pennaeth yr Is-adran Drethi: Polisi, Strategaeth ac Ymgysylltu, fel rhan o'i ymchwiliad i gost gofalu am boblogaeth sy'n heneiddio.

3.2 Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet i rannu manylion y pum ffrwd waith benodol a'r cylch gorchwyl ar gyfer y grŵp rhyng-Weinidogol ar dalu am ofal cymdeithasol.

## 4 Cost Gofalu am Boblogaeth sy'n Heneiddio: Sesiwn dystiolaeth 9 (Yr Athro Gerald Holtham)

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan yr Athro Gerald Holtham fel rhan o'i ymchwiliad i gost gofalu am boblogaeth sy'n heneiddio.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Cost Gofalu am Boblogaeth sy'n Heneiddio: Trafod y materion allweddol

6.1 Trafododd y Pwyllgor y prif faterion. Bydd yr adroddiad drafft yn cael ei drafod yn y cyfarfod nesaf.

## 7 Ymchwiliad i'r paratoadau ar gyfer yr hyn a fydd yn disodli ffrydiau cyllido'r UE yng Nghymru: Y prif faterion

7.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a thrafododd y materion allweddol. Bydd yr adroddiad drafft yn cael ei drafod yn y cyfarfod nesaf.

## 8 Trafod Offerynnau Statudol Treth

8.1 Nododd y Pwyllgor yr offerynnau statudol.

## 9 Trafod y flaenraglen waith

9.1 Trafododd y Pwyllgor ei flaenraglen waith ar gyfer tymor yr hydref.

# Eitem 2.1

**Huw Irranca-Davies AC/AM**
**Y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol**
**Minister for Children, Older People & Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

26 Gorffennaf 2018

Annwyl Cadeirydd

Yn ystod ei sesiwn dystiolaeth gerbron y Pwyllgor Cyllid dydd Mercher 11 Gorffennaf, addawodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid ddarparu gwybodaeth bellach ar y ffrydiau gwaith y cytunwyd arnynt i fwrw ymlaen ag ystyriaethau'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Dalu am Ofal Cymdeithasol. Fel Cadeirydd y Grŵp Rhyngweinidogol roeddwn yn meddwl ei bod yn fwy priodol imi rannu'r wybodaeth hon gyda chi.

Er mwyn darparu ystyriaethau'r polisi gofal cymdeithasol ochr yn ochr ag ystyriaethau ardoll gofal cymdeithasol bosibl y bu Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid yn ymgymryd â hwy, gofynnodd y Prif Weinidog imi gadeirio Grŵp Trawslywodraethol. O ganlyniad fel y cadarnhaodd fy Natganiad Ysgrifenedig 10 Gorffennaf, rwyf wedi'i sefydlu'r Grŵp Rhyngweinidogol i adlewyrchu ffocws trawslywodraethol hyn gan gynnwys Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gweinidog Tai ac Adfywio.

Yn ei gyfarfod cyntaf ar 27 Mehefin cytunodd y Grŵp Rhyngweinidogol ar ei gylch gorchwyl. Ar sail hyn fe drafododd wedyn ei raglenni gwaith a chytuno y dylid bwrw ymlaen â hyn trwy bum ffrwd waith neilltuol. Mae'r rhain yn cynnwys un yr un i ystyried materion ynghylch codi cyllid ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol trwy ardoll, dosbarthu'r cyllid a ddefnyddir fel hyn a defnyddio'r cyllid i gyflawni blaenoriaethau gofal cymdeithasol. Mae'n cynnwys hefyd ffrwd waith i ystyried y rhyngwyneb â Llywodraeth y DU, gan gynnwys sut y gallai unrhyw ardoll gofal cymdeithasol ryngweithio â'r system budd-daliadau lles, ac un i ddatblygu

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA


Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

strategaeth gyfathrebu i ymgysylltu â dinasyddion a'r sector gofal cymdeithasol i'w hysbysu am ddiben y gwaith hwn ac i ofyn am eu barn.

Rwyf wedi amgáu papur sy'n nodi cylch gorchwyl y cytunwyd arno ar gyfer y Grŵp Rhyngweinidogol ac sy'n darparu mwy o fanylion ar bob un o'r ffrydiau gwaith y cytunwyd arnynt. Rwyf yn gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o ddefnydd i'r Pwyllgor.



**Huw Irranca-Davies AC/AM**
Y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol
Minister for Children, Older People & Social Care

## GRŴP RHYNGWEINIDOGOL AR DALU AM OFAL CYMDEITHASOL

### Cylch Gorchwyl

- nodi a meintioli'r blaenoriaethau cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol yn y tymor canolig i'r tymor hir er mwyn cyflawni gofal cymdeithasol cynaliadwy yn unol â Ffyniant i Bawb a chan gefnogi'r broses o drawsnewid gofal cymdeithasol drwy'r Cynllun Tymor Hir ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a'i chyflawni, o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014;

- nodi'r opsiynau ar gyfer cyllido gofal cymdeithasol yn y dyfodol drwy gronfa gofal cymdeithasol;

- ystyried pa mor effeithiol yw'r opsiynau hyn yn nhermau'r incwm a gynhyrchir ganddynt, y mecanweithiau casglu, pa mor hyfyw ydynt i'w gweithredu, pa mor dderbyniol ydynt i'r sector a'r cyhoedd, a ydynt yn gallu bodloni'r blaenoriaethau cyllid a nodwyd;

- nodi'r opsiynau ar gyfer yr elw y byddai'r rheini sy'n cyfrannu at gronfa gofal cymdeithasol yn ei gael o ganlyniad i'w cyfraniadau (yr "addewid" y cyfeiria'r Athro Gerry Holtham ato) a rhinweddau'r rhain o ran y budd i'r unigolyn, sut y maent yn rhyngweithio â'r trefniadau ar gyfer darparu gofal cymdeithasol, a chodi tâl amdano, pa mor gynaliadwy ydyw'r opsiynau, a pha mor dderbyniol ydynt i'r sector a'r cyhoedd;

- nodi sut y dylid ysgogi deialog â Llywodraeth y DU, y sector a'r cyhoedd ynghylch y posibilrwydd o gael cronfa gofal cymdeithasol, a dechrau ar drafodaethau o'r fath, er mwyn gweld beth yw'r farn ynghylch yr opsiynau sydd ar gael, a dylanwadu arni, a cheisio consensws ynghylch y ffordd ymlaen;

- llunio barn a ddylid sefydlu cronfa gofal cymdeithasol, ac os felly, y sail ar gyfer hynny, yr amseriad, a'r opsiwn mwyaf priodol er mwyn codi cyllid ar ei gyfer.

### Ffrydiau Gwaith Arfaethedig

<u>Codi'r Cyllid</u>

- ystyried yr opsiynau ar gyfer casglu cyllid a'u priod rinweddau, gan gynnwys yr opsiwn a gynigiwyd gan yr Athro Holtham (ee treth incwm, ardoll);

- adolygu'r dystiolaeth o'r opsiynau a ddefnyddiwyd i gasglu cyllid mewn gwledydd eraill a'u rhinweddau (ee Japan, yr Almaen);

- ystyried sut y codir tâl am ofal cymdeithasol a'r goblygiadau ar gyfer cyllid y dyfodol.

Dosbarthu'r Cyllid

- ystyried yr amrywiol bartneriaid cyflenwi y gellid eu defnyddio i ddosbarthu cyllid a'r rhinweddau sydd ynghlwm wrth ddefnyddio pob un ohonynt (ee awdurdodau lleol, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol);
- ystyried yr opsiynau y gellid eu dilyn i ddosbarthu cyllid i bartneriaid cyflenwi a'r rhinweddau sydd ynghlwm wrthynt (ee Grant Cynnal Refeniw, y Gronfa Trawsnewid);
- ystyried y gwahanol opsiynau y gellid eu dilyn i ddarparu cyllid i'r unigolyn a'r rhinweddau sydd wrth ynghlwm wrthynt.

Defnyddio'r Cyllid

- ystyried y cyllid sydd ei angen yn y dyfodol i gyllido'r blaenoriaethau ymddangosiadol ar gyfer gofal cymdeithasol a'r modelau newydd o gyflenwi gofal cymdeithasol (ee y gwaith ar flaenoriaethau'r dyfodol a gomisiynwyd gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a chanlyniad dadansoddiad Cymru Iachach o wariant iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol sydd i'w gomisiynu);
- ystyried y buddsoddiad fydd ei angen gan y sector yn y dyfodol i gynnal y sector gofal cymdeithasol;
- ystyried yr opsiynau o ran faint o elw y byddai'r rheini sy'n talu ardoll neu dreth gofal cymdeithasol yn ei gael a rhinweddau'r rhain (yr "addewid" y cyfeiria'r Athro Gerry Holtham ato).

Rhyngwyneb Llywodraeth y DU

- ystyried y goblygiadau'n codi o Bapur Gwyrdd arfaethedig Llywodraeth y DU ar ofal cymdeithasol, a'r ffordd yr eir ati i ymateb i'r rheini;
- cadw mewn cysylltiad cyffredinol â Llywodraeth y DU, gan gynnwys ynghyd â Thrysorlys Cymru dderbynioldeb unrhyw gynnig a gyflwynir i Drysorlys EM;
- ystyried y goblygiadau y byddai unrhyw gynnig a gyflwynir, a'r ffordd yr eir ati i ymateb i'r rheini,  yn eu cael mewn perthynas â budd-daliadau lles yng Nghymru.

Cyfathrebu

- codi ymwybyddiaeth o'r system bresennol ar gyfer cyllido gofal cymdeithasol, a bod modd codi tâl am ofal cymdeithasol;
- codi ymwybyddiaeth o'r pwysau ar gyllideb Llywodraeth Cymru a'r heriau a wynebir yng ngoleuni'r cynnydd posibl mewn galw am ofal cymdeithasol;
- codi ymwybyddiaeth o'r ffordd y dylid cyflenwi system iechyd a gofal cymdeithasol integredig barhaus yn y dyfodol;
- hyrwyddo'r angen i bobl gymryd cyfrifoldeb am ddiwallu eu hanghenion gofal eu hunain yn y dyfodol, gan gynnwys y posibilrwydd o gyfrannu at y gost hon drwy ardoll neu dreth;

- ceisio barn am yr opsiynau i godi cyllid ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol a'r elw y gallent ei gael yn sgil cyfrannu ato (yr "addewid" y cyfeiria'r Athro Gerry Holtham ato).

**Mark Drakeford AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid**
**Cabinet Secretary for Finance**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MA – P/MD/2827/18

Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Bae Caerdydd,
Caerdydd
CF99 1NA


10 Awst 2018

Annwyl cadeirydd

Diolch i'r Pwyllgor Cyllid am graffu ar Ail Gyllideb Atodol 2018-19 ac am yr adroddiad a gafwyd wedi hynny.

Atodaf ymateb ysgrifenedig i'r adroddiad hwnnw gan obeithio y bydd yn ddefnyddiol i chi.

Yn gywir,



**Mark Drakeford AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I'R CASGLIADAU YN ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYLLID: CRAFFU AR GYLLIDEB ATODOL GYNTAF LLYWODRAETH CYMRU 2018-19.**

**AWST 2018**

---

**Casgliad 1**
**Nid yw'r newidiadau yn y gyllideb atodol hon yn sylweddol. Fodd bynnag, gwerthfawrogodd y Pwyllgor y cyfle i drafod y newidiadau ac mae'n credu y dylai'r arfer da hwn barhau. Mae'r Pwyllgor wedi nodi meysydd lle y byddai gwybodaeth ychwanegol o gymorth adeg y gyllideb ddrafft.**

Mae cyllidebau atodol yn rhan bwysig o'r broses reoli ariannol flynyddol gan sicrhau tryloywder ac atebolrwydd yn achos cynlluniau gwario'r Llywodraeth.

Mae'n arfer erbyn hyn gosod dwy gyllideb atodol y flwyddyn ac mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl i hyn barhau.

Rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd o wella'r wybodaeth yr ydym yn ei rhoi fel rhan o'r broses gyllidebol. Byddwn yn parhau i ddatblygu ein dull gweithredu ar gyfer cyllidebu a byddwn yn cnoi cil ymhellach ar sylwadau'r Pwyllgor wrth ddatblygu cyllidebau'r dyfodol.

**Casgliad 2**
**Mae'r Pwyllgor yn croesawu dull gweithredu Llywodraeth Cymru o ran defnyddio cyfalaf trafodiadau ariannol a byddai'n croesawu ymchwiliad pellach i ddulliau arloesol a chreadigol o ddefnyddio'r arian hwn**

Mae Llywodraeth Cymru'n cydweithio â'i rhanddeiliaid i ddod o hyd i ffyrdd arloesol newydd o ddefnyddio cyllid trafodiadau ariannol yn y ffordd orau i gefnogi blaenoriaethau Cymru, er gwaethaf ei natur gyfyngol. Rydym yn parhau i drafod gyda Thrysorlys Ei Mawrhydi i ystyried ym mha ffordd y mae'r cyfyngiadau ar ddefnydd yn effeithio ar Gyllideb Cymru.

**Casgliad 3**
**Mae'r Pwyllgor yn bwriadu dychwelyd i drafod cyfalaf trafodiadau ariannol wrth drafod y gyllideb ddrafft yn yr hydref. Mae'r Pwyllgor yn gofyn i fanylion am sut y caiff cyfalaf trafodiadau ariannol ei ddyrannu yn y cyllidebau amlinellol a manwl ac unrhyw ymrwymiadau ad-dalu fod yn rhan o grynodeb cyffredinol o restrau dyled ac ad-dalu Llywodraeth Cymru a ddarperir ar yr un pryd â'r gyllideb amlinellol**

Bydd y gyllideb ddrafft amlinellol yn darparu cyfanswm y cyllid trafodiadau ariannol a ddyrennir i bob prif grŵp gwariant (MEG) gyda'r gyllideb ddrafft fanwl yn darparu gwybodaeth bellach yn benodol i bob portffolio.

Gan mai ffrwd gyllido o Drysorlys Ei Mawrhydi yw cyllid trafodiadau ariannol, mae'n wahanol i fenthyciadau o'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol, ac nid oes ganddo ddyddiadau talu penodedig, ac nid yw'n destun llog neu gosbau. Fel y cyfryw ni fyddem yn cydgrynhoi'r ffrwd gyllido hon ochr yn ochr â benthyca cyffredinol Llywodraeth Cymru. Byddwn yn ystyried y ffordd orau o gyflwyno'r wybodaeth hon.

**Casgliad 4**
**Mae'r Pwyllgor yn bwriadu dychwelyd i drafod cyllid ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol wrth**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**graffu ar y gyllideb ddrafft yn yr hydref, yn enwedig yn sgil ei ymchwiliad i gost gofalu am boblogaeth sy’n heneiddio, ac yn gofyn i fanylion ychwanegol ar newidiadau eraill i'r dull ar gyfer dyrannu arian i gyrff y GIG gael eu rhoi bryd hynny**

Rydym yn disgwyl canlyniad ymchwiliad y Pwyllgor i'r gost o ofalu am boblogaeth sy'n heneiddio, a byddwn yn ystyried yr effaith y gallai unrhyw argymhellion eu cael ar y mecanwaith ar gyfer dyrannu cronfeydd i gyrff y GIG.  Caiff unrhyw newidiadau pellach i'r mecanwaith ar gyfer dyrannu cronfeydd i gyrff y GIG mewn ymateb i unrhyw argymhellion sy'n deillio o'r ymchwiliad eu hadrodd i'r Pwyllgor.

**Casgliad 5**
**Mae'r Pwyllgor yn bwriadu dychwelyd i drafod cyllid ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol wrth graffu ar y gyllideb ddrafft yn yr hydref, yn enwedig yn sgil ei ymchwiliad i gost gofalu am boblogaeth sy’n heneiddio, ac yn gofyn i fanylion ychwanegol ar newidiadau eraill i'r dull ar gyfer dyrannu arian i gyrff y GIG gael eu rhoi bryd hynny**

Rydym wedi dod i gytundeb ar y trefniadau cyllidol ar gyfer gweithredu gwasanaethau trên gyda Llywodraeth y DU, a byddwn yn cyhoeddi'r cytundeb hwnnw cyn gynted â phosibl. Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth ddatganiad ysgrifenedig i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Cynulliad am daliadau mynediad at y rheilffyrdd yn y dyfodol.

**Casgliad 6**
**Mae'r Pwyllgor yn bwriadu dychwelyd i drafod datgarboneiddio ac effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth drafod y gyllideb ddrafft yn yr hydref ac yn ei gwneud yn ofynnol, yn unol ag argymhellion blaenorol, i gyllidebau drafft ddangos sut y mae penderfyniadau'n gyson â nodau llesiant, yn bodloni blaenoriaethau Ffyniant i Bawb a datgarboneiddio hefyd**

Cydnabuwyd gynt mai proses esblygu a fyddai'n digwydd dros nifer o flynyddoedd fyddai ymwreiddio egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth gynllunio'r gyllideb.  Wrth ddatblygu cyllideb ddrafft 2019-20 rydym yn gweithio ar draws y Llywodraeth i adolygu sut y bydd ein cynlluniau gwario'n cydweddu â Ffyniant i Bawb, amcanion llesiant Llywodraeth Cymru a'r ffyrdd o weithio. Mae hyn yn cynnwys ystyried y tri maes penodol y cytunwyd arnynt gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol y mae datgarboneiddio'n un ohonynt.

**Casgliad 7**
**Mae'r Pwyllgor yn bwriadu dychwelyd i drafod materion sy'n ymwneud â fforddiadwyedd tymor hir polisïau benthyciadau i fyfyrwyr wrth drafod cyllideb ddrafft 2019-20 yn yr hydref ac yn gofyn i fanylion ychwanegol gael eu rhoi bryd hynny.**

Caiff y rhagolygon diweddaraf ar gyfer rhwymedigaethau benthyciadau i fyfyrwyr eu cynnwys yng nghyllideb ddrafft 2019-20.

Roedd y system cyllid myfyrwyr yn destun adolygiad annibynnol dwy flynedd yn ddiweddar a ystyriodd, ymhlith pethau eraill, fforddiadwyedd a chynaliadwyedd. Cafodd argymhellion yr adolygiad eu croesawu gan yr holl randdeiliaid ac mae Llywodraeth Cymru wrthi bellach yn rhoi'r diwygiadau ar waith. Mae darpariaeth benthyciadau i fyfyrwyr yn cael ei thanysgrifennu gan Drysorlys Ei Mawrhydi, sydd wedi cymeradwyo ariannu'r diwygiadau ar y sail y bydd ein system yn parhau i fod yn llai costus, mewn perthynas â benthyciadau i fyfyrwyr, na pholisïau Llywodraeth y DU.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 5

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 7

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 8

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon